Rhifyn 1, Chwefror 10 Pris: £1

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

Croeso nôl

Blwyddyn Newydd dda i chi oll! Mae'n siŵr bod yr eira wedi creu pen tost ac achosi trafferthion i nifer helaeth ohonoch ond gobeithiwn nad yw wedi creu trafferthion mwy hirdymor i chi. Mae'r eira'n bendant wedi bod yn bwnc llosg yn y newyddion ar ddechrau'r tymor ysgol ac mae'n drueni nad yw addysg, ysgolion a cholegau'n cael yr un faint o sylw yn gyson yn y wasg, a hynny am resymau mwy positif!

Rwy'n gobeithio, hefyd, y bydd modd i chi ddod i gwrdd â Swyddogion UCAC ac athrawon a darlithwyr eraill yn ein Cynadleddau Sir. Bu raid i ni ohirio'r cyfarfod mewn ambell sir oherwydd yr eira ond byddwn yn eich hysbysu am y trefniadau newydd. Cofiwch fod y Gynhadledd Sir yn cynnig cyfle gwych i chi ddweud eich dweud wrth Swyddog UCAC, a chymdeithasu ar yr un pryd. Mae'r awyrgylch fel rheol yn anffurfiol ac mae croeso i bawb. Byddai'n braf gweld cynrychiolaeth o bob ysgol yn y sir er mwyn i Swyddogion UCAC glywed am y materion sydd yn eich pryderu neu'n effeithio ar eich ysgol chi.

Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol

Rhondda Cynon Taf: Bygythiad difrifol i addysg cyfrwng Cymraeg

Mae Rhondda Cynon Taf, fel pob awdurdod lleol yng Nghymru, wrthi'n ad-drefnu addysg ôl-16, yn ôl gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau a'r 'Agenda Trawsnewid'.

Denodd cynlluniau Rhondda Cynon Taf gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau yn sgil y ffordd y maen nhw'n ymdrin ag addysg cyfrwng Cymraeg – neu'n hytrach, y diffyg sylw sydd wedi'i dalu i'r sector. Mae'n fwriad gan y Cyngor gau pob chweched ddosbarth ar draws yr awdurdod – gan gynnwys y rheiny yn y pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg - a sefydlu darpariaeth drydyddol 'ddwyieithog' ar dri safle yn eu lle.

Yn naturiol, mae gan UCAC bryderon difrifol am y datblygiadau hyn, ac rydym wedi dechrau ymgyrch gref yn eu herbyn. Rydym yn cydweithio'n agos yn hyn o beth gyda Chymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG) a Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG).

Gofynnwn nawr am eich help chi, aelodau UCAC, yn yr ymgyrch i ddiogelu addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, drwy:

1. Gwblhau ac anfon y cerdyn post amgaeedig at y Gweinidog Addysg, cyn gynted â phosib
2. Ysgrifennu llythyr neu e-bost at y canlynol i fynegi'ch pryderon a'ch gwrthwynebiad:

- Leighton Andrews, Gweinidog Addysg, Plant a Dysgu Gydol Oes, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CAERDYDD CF99 1NA; gohebiaeth.leighton.andrews@cymru.gsi.gov.uk
- David Hawker, Cyfarwyddwr Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, CAERDYDD CF10 3NQ; david.hawker@cymru.gov.uk
- Mike Keating, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes Rhondda Cynon Taf, Y Ganolfan Addysg, Tŷ Trevithick, Abercynon, ABERPENNAR CF45 4UQ; mike.keating@rhondda-cynon-taff.gov.uk

3. Os ydych chi'n byw yn rhanbarth 'Canol De Cymru', mae'n werth i chi ysgrifennu yn ogystal at eich Aelodau Cynulliad rhanbarthol:

- Andrew R.T. Davies (Ceidwadwyr): andrewrt.davies@cymru.gov.uk
- Chris Franks (Plaid Cymru): christopher.franks@cymru.gov.uk
- David Melding (Ceidwadwyr): david.melding@cymru.gov.uk
- Leanne Wood (Plaid Cymru): leanne.wood@cymru.gov.uk

Mi allech grybwyll rhai o'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi, mewn ardaloedd ble nad yw'r Gymraeg yn iaith naturiol yn y gymuned, nid yw darparu 'cyrsiau cyfrwng Cymraeg' mewn sefydliad 'dwyieithog' yn ddigon i greu unigolion gwirioneddol ddwyieithog; dim ond addysg cyfrwng Cymraeg, gydag 'ethos' Cymraeg, all wneud hynny
- Bydd datblygiad o'r fath yn niweidiol i rannau eraill o'r gyfundrefn addysg:
  * Addysg 11-16: gallai llai o rieni ddewis anfon eu plant i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gan wybod na fyddai parhad i'r ddarpariaeth ôl-16
  * Addysg Uwch: byddai'n niweidiol dros ben i'r cynllun i greu Coleg Ffederal, oherwydd byddai'n torri ar ddilyniant ieithyddol addysg disgyblion ôl-16, ac yn ei gwneud yn annhebygol y byddent yn dewis llwybr cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch
- Nid yw cynllun o'r fath yn cyd-fynd â gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau, na'r Agenda Trawsnewid sy'n gofyn bod cynlluniau'n dangos "Yr effaith gadarnhaol a gaiff y cynnig o ran yr amrywiaeth o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr ac ansawdd y cyfleoedd hynny."

Neu gallwch fynd i wefan UCAC i gael llythyr 'model' i'w addasu a'i anfon.

Os hoffech unrhyw wybodaeth neu gyngor pellach, mae croeso mawr i chi gysylltu: elaine@athrawon.com neu rebecca@athrawon.com

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

t2 Newyddion t3 Gweinidog Addysg Newydd t4 Adnoddau

Athrawon Newydd – cwrs llwyddiannus

Cynhaliodd UCAC ddau gwrs undydd ar gyfer athrawon newydd i'r proffesiwn ym mis Tachwedd, y naill yn Llanrwst a'r llall yng Ngorseinon. Daeth criw bychan a brwdfrydig ynghyd yn y ddwy ganolfan i gwrdd â Swyddogion yr undeb ac i gael cyngor a thrafodaeth ar wahanol feysydd a phynciau o bwys neu o bryder. Roedd hefyd yn gyfle i athrawon newydd gwrdd ag eraill mewn sefyllfa debyg, a chymharu profiadau.

Bu croeso mawr i'r cyrsiau, a'r tebygolrwydd yw y bydd UCAC yn cynnal cyrsiau cyffelyb yn y dyfodol.

Dyma rai o sylwadau'r athrawon:

"Cwrs da iawn yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol iawn."

"Mae wedi bod o gymorth i mi gael gwybod fy hawliau."

"Rwyf yn teimlo'n fwy hyderus i godi unrhyw faterion annheg y gallaf eu hwynebu."

"Rwyf yn teimlo llawer mwy hyderus oherwydd rwyf yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael."

"Roedd hi'n hynod fuddiol i ddod i adnabod swyddogion yr undeb yn well ac yn cadarnhau fod yna gymorth ar gael os oes angen, unrhyw bryd."

"Bwyd lyfli!"

Facebook yn codi'i ben eto!

Mae'r defnydd o e-dechnoleg, a *Facebook* yn benodol, wedi creu trafferthion a chryn ofid i nifer yn ystod tymor cyntaf o 2009-2010. Unwaith eto pwyswn arnoch i fod yn wyliadwrus ac i gofio peidio ag ysgrifennu unrhyw beth na fyddech yn hapus i unrhyw un ei ddarllen; peidiwch ar unrhyw gyfri' cyfeirio at eich gweithle na'ch cydweithwyr.

Mae rhai ohonoch, hefyd, wedi cael trafferthion oherwydd defnydd pobl eraill o'r dechnoleg.

Beth bynnag yw'r sefyllfa, os bydd problem yn codi, cofiwch gysylltu ag UCAC yn syth am gyngor.

Cyfrinachedd rhwng UCAC a'i aelodau

Mae cyfrinachedd yn egwyddor cwbl, cwbl greiddiol i'r gefnogaeth y mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn ei roi i athrawon a darlithwyr Cymru. Dyma egwyddor y mae'n werth ei phwysleisio dro ar ôl tro, gan fod materion sensitif iawn yn cael eu trafod ar adegau.

I lawer, mae cysylltu gyda swyddogion UCAC yn gam mawr, a gallwn eich sicrhau bod pob sgwrs yn gyfrinachol ac na fyddwn yn gweithredu ymhellach ar unrhyw fater heb yn gyntaf drafod yn drylwyr gyda chi. Yn bendant, ni fyddwn yn cysylltu gyda'ch ysgol na'r awdurdod addysg ar eich rhan heb eich caniatâd.

Mae UCAC yma ar eich cyfer chi i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Gallwch ymddiried yn ein gwasanaeth ymhob amgylchiad – ac mae'r gwasanaeth hwnnw yn un cwbl gyfrinachol.

Prin Gyflenwi

Mae Swyddogion UCAC wedi ymweld â rhai ysgolion i drafod gweithredu'r gofyniad newydd 'Prin Gyflenwi'. Mae gweithredu'r gofynion newydd yn profi'n her i rai ysgolion ac mae'n ymddangos bod ansicrwydd am y rheolau newydd. Os hoffech chi i Swyddogion UCAC ymweld â'ch ysgol i roi arweiniad ar Prin Gyflenwi neu unrhyw fater yn ymwneud a thâl ac amodau gwaith, cysylltwch â'r Swyddog Maes perthnasol i wneud trefniadau: dilwyn@athrawon.com – Swyddog Maes y De; eryl@athrawon.com – Swyddog Maes y Gogledd.

Arian Hyfforddiant y Cyngor Addysgu

Mae toriad anferthol (o £2.9miliwn i £0.9miliwn) yn y gyllideb sy'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) gyda ffocws unigol. Yn ogystal, mae coffrau'r Gronfa Ysgolion Gwell wedi gweld lleihad o £7m, felly does dim amheuaeth y bydd prinder arian ar gyfer DPP yn 2010-11. Mae gwaddol gan y Cyngor Addysgu i dalu am weddill cyrsiau dwy a thair blynedd sydd eisoes wedi'u cychwyn. Yn y dyfodol mae'n debyg y bydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn gysylltiedig â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Cofiwch serch hynny nad yw'r flwyddyn ariannol yn dod i ben tan ddiwedd mis Mawrth, felly mae'n werth i chi wneud cais am arian ar unwaith os oes gennych gwrs mewn golwg.

Ad-daliadau treth

Yn amgaeedig gyda'ch copi diwethaf o Yr Athro, roedd ffurflen gan y *Tax Refund Company* a llythyr yn esbonio beth all y cwmni ei gynnig i chi o ran gwasanaeth a beth yw'r ffi. Hoffai UCAC eich atgoffa, hefyd, bod dulliau eraill o ymchwilio i'ch sefyllfa treth, gan gynnwys mynd at gyfrifydd lleol, fydd efallai'n gallu cynnig y gwasanaeth i chi trwy gyfrwng y Gymraeg. Pa wasanaeth bynnag y byddwch yn ei ddewis, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r telerau.

Tâl aelodaeth

Er gwybodaeth i aelodau, dyma dâl aelodaeth UCAC ar gyfer 2010:

Llawn amser: £12.50 y mis (£150 y flwyddyn)

Rhan amser (dros hanner amser): £8.25 y mis (£99 y flwyddyn)

Rhan amser (hanner amser neu lai): £6.75 y mis (£81 y flwyddyn)

Blwyddyn galendr gyntaf neu hyfforddi yn y gweithle: £1 y mis (£12 y flwyddyn)

Cyfeillion: £24

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwynn Griffith
Is-Lywydd: Linden Evans
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cyd-lynydd *Yr Athro*: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Rebecca Williams, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, Ffacs: 01970 626765, rebecca@athrawon.com, www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Gweinidog Addysg Newydd

Gyda Phrif Weinidog newydd, cawsom hefyd Weinidog Addysg newydd, sef Leighton Andrews, yr Aelod Cynulliad dros Rhondda.

Bu ychydig o ail-drefnu o fewn yr Adran, a gan fod y cyfrifoldeb dros sgiliau bellach wedi'i adleoli (gweler isod), mae APADGOS (*DCELLS*) bellach yn APADGO (*DCELL*).

Mae'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau bellach yn Ddirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau. Lesley Griffiths, yr Aelod Cynulliad dros Wrecsam, sydd yng ngofal y portffolio hwnnw (yn lle John Griffiths). Mae'r Dirprwy Weinidog yn atebol i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, sef Ieuan Wyn Jones, yn hytrach na'r Gweinidog Addysg.

Mae swydd Dirprwy Weinidog newydd wedi'i chreu, sef y Dirprwy Weinidog dros Blant. Huw Lewis, yr Aelod Cynulliad dros Ferthyr Tudful sydd wedi'i benodi i'r rôl.

UCAC gerbron y *School Teachers' Review Body* yn Llundain

Ar y 14 Ionawr aeth dirprwyaeth o UCAC i gyfarfod gydag aelodau'r *School Teachers' Review Body* (STRB) i drafod cylch gwaith y Panel ar gyfer 2009-2010. Eleni, mae'r Gweinidog Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Ed Balls, wedi gofyn iddynt edrych yn benodol ar faterion yn ymwneud â thaliadau AAA / AAY a'r berthynas rhwng rôl Dirprwy a Phennaeth Cynorthwyol, a'r posibilrwydd o ddatblygu criteria i'w diffinio.

Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan UCAC ym mis Rhagfyr ac roedd y cyfarfod yn gyfle i aelodau'r panel holi cynrychiolwyr UCAC ymhellach am y materion hyn. Roedd yn gyfle i Elaine Edwards (Ysgrifennydd Cyffredinol), Dilwyn Roberts-Young (Is-ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Maes y De), Eryl Owain (Swyddog Maes y Gogledd) a Dilwyn Ellis-Hughes (aelod o Gyngor Cenedlaethol UCAC ac aelod o'r Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith) i fynegi safbwynt UCAC.

Roedd yn gyfarfod bywiog, diddorol a phwysig.

Mae copi o dystiolaeth ysgrifenedig UCAC ar gael ar wefan UCAC. Er mwyn darganfod mwy am waith yr STRB ac aelodau'r Panel ewch i wefan yr Office of Manpower and Economics www.ome.uk.com ac edrychwch dan *Review Bodies*.

Os oes gennych farn i'w mynegi am unrhyw un o'r materion uchod cysylltwch ag UCAC ar elaine@athrawon.com – bydd y drafodaeth yn parhau yn y dyfodol.

Panel yr *STRB*

Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Safonau Proffesiynol a Rheoli Perfformiad: Aelodau UCAC yn mynegi barn

Mae Adran Addysg Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n cynnal adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, Safonau Proffesiynol a Rheoli Perfformiad. Cyn y Nadolig daeth Pennaeth yr Is-Adran sy'n cynnal yr adolygiad, Helen Arthur, i Brif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth i glywed barn grŵp o aelodau UCAC.

Ymgynghoriad anffurfiol oedd hwn, a chafwyd digon o gyfle i gynnig syniadau, i wneud awgrymiadau, ac i ddisgrifio'r sefyllfa o safbwynt athrawon o amrywiol sectorau. Soniwyd am y diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o safonau proffesiynol, a'r canfyddiad eu bod yn bwysig ar gyfer cymhwyso neu i gael dyrchafiad, ond yn amherthnasol fel arall. Disgrifiwyd profiadau ar y Cynllun Athro Siartredig, a chafwyd trafodaeth ar yr angen am gydbwysedd o ran hyfforddiant rhwng blaenoriaethau'r Llywodraeth, blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau'r athrawon unigol. Cyfeiriwyd at y diffyg cyfleoedd ar gyfer athrawon digyswllt i gael hyfforddiant, a hefyd at yr angen i gydnabod cyfrifoldebau a phrofiadau rheolaethol anffurfiol wrth ymgeisio am y CPCP (*NPQH*). Cadarnhaodd Helen Arthur nad oes gan APADGOS fwriad i ddilyn y DCSF yn Llundain drwy gyflwyno Trwydded i Weithredu (*Licence to Practise*).

Caiff cynigion penodol eu cyflwyno mewn ymgynghoriad ffurfiol maes o law, a bydd UCAC yn siŵr o ymateb i hwnnw.

Diolch yn fawr iawn i'r holl aelodau a ddaeth ynghyd ac a rhoddodd o'u hamser a'u harbenigedd.

Ariannu Addysg Ôl-16

Mae UCAC wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar ariannu addysg ôl-16. Mae'r dystiolaeth i'w gweld ar wefan UCAC neu ar wefan y Cynulliad. Os oes gennych chi enghreifftiau penodol o effaith y setliad ar gyllideb eich ysgol, anfonwch neges at elaine@athrawon.com neu codwch y ffôn am sgwrs gyfrinachol.

Efallai bod y setliad eleni yn golygu y bydd angen torri cwrs neu ohirio prosiectau arbennig; efallai y bydd rhaid i rywun golli swydd.

Efallai bod gennych farn ar beth sy'n cyfrannu fwyaf at eich costau, neu sylwadau am doriadau effeithlonrwydd.

Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sy'n ychwanegu at y darlun o sefyllfa ariannol ysgolion Cymru.

GCaD CYMRU NGfL

Adnoddau GCaD

Ewch i wefan GCaD Cymru (www.gcad-cymru.org.uk) er mwyn gweld yr adnoddau rhyngweithiol rhad ac am ddim sydd yno ar eich cyfer. Dyma ychydig o enghreifftiau:

Bedyddio

Mynediad trwy ddilyn: CA1 > Addysg Grefyddol > Dathliadau > Bedyddio

Mae'r gweithgareddau gwahaniaethol yn y pecyn yma yn cynnwys stori wreiddiol am ferch fach yn cael ei bedyddio, gyda chyfres o weithgareddau a gemau i ddilyn gan gynnwys chwileiriau, gweithgareddau gosod mewn trefn a chyfateb, gweithgareddau medrau meddwl, a jig-sos.

Gweithgaredd GIS

Mynediad trwy ddilyn: CA2 > Daearyddiaeth > Sgiliau ac ymchwiliadau – Gweithgaredd GIS

Tri gweithgaredd GIS syml i'w defnyddio gyda disgyblion cynradd. Mae gofyn i'r disgyblion werthuso'r safle gorau ar gyfer castell, a safle ailgylchu gan gyfiawnhau eu dewisiadau terfynol. Yn y trydydd gweithgaredd mae angen i'r disgyblion arwain Hugan Fach Goch drwy'r goedwig ar hyd y llwybr cyflymaf.

Number 7 Alpha Road - Miss Marbles

Mynediad trwy ddilyn: CA3 > Saesneg > Writing > Types of Writing - Fiction > Number 7 Alpha Road - Miss Marbles

Uned ar gyfer dysgu Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3 sydd yn canolbwyntio ar idiomau ac ysgrifennu sgriptiau. Mae yma dasgau i'w cwblhau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol ac eraill y gellir eu gwneud ar bapur yn unigol. Pwrpas yr uned yw annog trafodaeth ac i ddadansoddi ysgrifennu.

Gwyddoniaeth Gymhwysol

Mynediad trwy ddilyn: U/UG > Gwyddoniaeth Cymhwysol > Gwyddoniaeth Cymhwysol

Mae'r adnodd yn darparu 5-6 astudiaeth achos am ddiwydiannau lleol, e.e. canolfannau garddio, canolfannau hamdden, bragdai, ffermydd, fferyllfeydd, ysbytai, sŵau môr, tai pobi, archfarchnadoedd, ac adrannau'r cyngor lleol megis iechyd amgylcheddol.

Daearyddiaeth AS – Newidiadau Tectonig

Mynediad trwy ddilyn: Adnoddau Addysgu > U/UG > Daearyddiaeth > Daearyddiaeth CBAC

Cyfres o weithgareddau bwrdd gwyn sydd yn seiliedig ar enghreifftiau ar draws y byd ac astudiaeth fanwl o ddaeargryn Sichuan. Mae'r astudiaeth yma yn cyfrannu at ddealltwriaeth o'r Cwestiynau Allweddol yn UNED G1, Amgylcheddau Ffisegol Newidiol, Ymchwilio i newidiadau Tectonig o fanyleb TAG UG Daearyddiaeth CBAC.

Gofal Plant ac Addysg

Mynediad trwy ddilyn: Galwedigaethol > Gofal Iechyd, Meddygaeth, Iechyd a Diogelwch > Gofal Plant, Datblygiad ac Addysg > Gofal Plant ac Addysg

Mae'r adnodd yma sydd yn cefnogi manyleb CACHE lefel 2 hefyd yn addas ar gyfer cyrsiau eraill o fewn maes Iechyd a Gofal. Cynlluniwyd yr uned er mwyn i athrawon allu addysgu dosbarth cyfan trwy gymorth taflunydd, neu fwrdd gwyn rhyngweithiol. Gall ddysgwyr hefyd ddefnyddio'r adnoddau ar gyfer hunanastudiaeth ac adolygu.

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwadau, cofiwch gysylltu â GCaD Cymru ar 029 2026 5177 neu gwybodaeth@gcad-cymru.org.uk

Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Sabothol yn gwrs arbennig ar gyfer athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr er mwyn codi safon eu Cymraeg. Mae'n gynllun llwyddiannus, ac erbyn diwedd y cwrs mi ddylai pawb fod yn gallu addysgu, darlithio neu hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio terminoleg arbenigol yn y gwaith.

Lleoliad a chost: Cwrs dwys 12 wythnos o hyd yw hwn. Cynhelir y cwrs ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor neu Goleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin. Mae opsiwn dysgu o bell ar gael hefyd sy'n cynnwys cyfnodau preswyl. Mae'r cwrs yn rhad ac am ddim, a thelir costau cyflenwi.

Dyddiadau'r cwrs nesaf: 19 Ebrill - 16 Gorffennaf 2010 (Dysgu o Bell ym Mangor); Dyddiad cau 12/02/2010

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau: 01443 663770 / cynllunsabothol@cymru.gsi.gov.uk / www.cymru.gov.uk/cynllunsabothol

Cystadleuaeth Gwrth-hiliaeth Ysgolion 2010

Elusen gwrth-hiliaeth yw 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' sy'n herio hiliaeth trwy ddefnyddio chwaraewyr pêl-droed a rygbi fel arwyr ac esiamplau yn erbyn hiliaeth. Mae'n arbenigo mewn creu adnoddau addysgol megis fideos, DVD, cylchgronau, posteri a phecynnau. Yn ogystal mae'n trefnu cystadleuaeth flynyddol i ysgolion.

Roedd 96 ysgol o bob rhan o Gymru wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn 2009 gyda thua 15,000 disgybl o bob oedran a gallu wedi cynhyrchu gwaith celf, barddoniaeth, ffilm a cherddoriaeth ar thema gwrth-hiliaeth. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn Stadiwm y Mileniwm gyda phob enillydd o Gymru yn bresennol i dderbyn eu gwobrau oedd yn cynnwys peli a chrysau wedi eu harwyddo, tocynnau gemau, tystysgrifau wedi eu fframio, a chafodd y prif enillwyr wylio sesiynau hyfforddi timau pêl-droed a rygbi Cymru cyn eu gemau ym mhencampwriaeth ragbrofol Cwpan y Byd a thaith yr Haf.

Y dyddiad cau i ysgolion gofrestru ar gyfer y gystadleuaeth eleni yw 26 Chwefror 2010, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 26 Mawrth 2010. Cyflwynir gwobrau yn Stadiwm y Mileniwm yn Ebrill 2010. Gall ysgolion gofrestru trwy e-bostio wales@theredcard.org neu ffonio 02920 340422 a chadarnhau enw'r ysgol a'r enw cyswllt. Gellir lawrlwytho'r rheolau o: www.srtrc.org/educational/competitions/wales